



Eich cyf/Your ref P-05-963
Ein cyf/Our ref LG/01745/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@gov.wales

03 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-05-963 sy'n gofyn i archfarchnadoedd roi'r bwyd sydd ganddynt dros ben i elusennau.

Yn fy llythyr dyddiedig 26 Mai, disgrifiais y mesurau y mae archfarchnadoedd yn eu cymryd trwy'r wlad yn ogystal â'ch sicrhau bod ganddynt drefniadau ar lefel leol i rannu'r bwyd sydd ganddynt dros ben.

Wrth ddelio â stoc dros ben, mae archfarchnadoedd yn dilyn yr hierarchaeth a ddatblygwyd gan WRAP ar gyfer Gwastraff Bwyd a Diod. Mae'r hierarchaeth yn gofyn i archfarchnadoedd rannu bwyd dros ben i'w fwyta gan bobl cyn ei anfon i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid neu i'r mannau derbyn gwastraff eraill. Yn ôl WRAP, dros gyfnod y pandemig, mae busnesau bwyd wedi bod yn llwyddo i wneud hyn gan sicrhau bod bwyd na ellir ei werthu yn cael symud o gwmpas y gadwyn gyflenwi i fwydo pobl heb ei wastraffu.

Mae Bil Amgylchedd y DU yn dal i fynd drwy'r broses Seneddol, ond pe bai'n cael ei basio, bydd y pwerau ym Mil yr Amgylchedd yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol perthnasol i fynnu ymrwymadau cyfrifoldeb y cynhyrchydd, a gellid defnyddio hyn at ddibenion atal gwastraff bwyd ac aiddosbarthu bwyd dros ben. Fodd bynnag, rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar ddatblygu Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer pecynnu yr ydym yn gweithio arno ar y cyd â chenhedloedd eraill y DU.

Yn gywir

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.